



Cyngor Dinas Casnewydd Polisi Cynllunio a Rheoli Perfformiad 2020-22

Fersiwn 1.0

Cyflwyniad a chefnidir

Nod y polisi hwn yw gwreiddio diwylliant cynllunio a pherfformio cryf lle mae pawb yn ymwybodol o'u cyfraniad tuag at weledigaeth y Cyngor - *Gwella Bywydau Pobl*. Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn darparu mwy na 800 o wasanaethau statudol ac anstatudol i drigolion, busnesau a defnyddwyr gwasanaeth eraill. Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2017 – 2022 wedi gosod 4 Amcan Lles a 4 Thema Gorfforaethol sydd â'r nod o gyflawni gweledigaeth y Cyngor.


Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, feddwl am effeithiau hirdymor ein penderfyniadau. Mae'r Ddeddf yn ymwneud â datblygu cynaliadwy i wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd yn Un wedi datblygu Cynllun Lles ar gyfer 2018-23 gyda 5 ymyriad i gefnogi'r 7 Nod Lles a osodwyd yn y Ddeddf. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion a'r penderfyniadau a wnawn, mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried y 5 egwyddor Ffordd o Weithio isod:



Fframwaith Integredig Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Risg

Mae'r Fframwaith Integredig Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Risg yn cydnabod er mwyn cyflawni ein hamcanion, mae angen diwylliant arnom a all gynllunio'n effeithiol, dangos canlyniadau clir sydd o fudd i'n rhanddeiliaid, a bod yn wydn hefyd o ran y cyfleoedd a'r risgiau yr ydym yn dod ar eu traws. Mae'r 3 colofn hyn o gynllunio, perfformiad a risg yn hanfodol a dylid eu plethu i mewn i'n penderfyniadau ar bob lefel o'r sefydliad.

Mae'r diagram isod yn nodi sut mae'r Fframwaith a'r polisiau ategol yn cefnogi'r lefelau strategol a gweithredol allweddol yng Nghyngor Casnewydd.



Cynllunio Strategol, Gweithredol ac Unigol

Un o sylfeini hanfodol rheoli perfformiad yn effeithiol yw cynllunio. Fel y diffinnir yn y diagram uchod, mae angen i waith cynllunio effeithiol gael ei wneud ar bob lefel o'r sefydliad, p'un a yw'n cyflawni amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol, prosiectau, amcanion Cynlluniau Gwasanaeth neu amcanion unigol.

Cynllun Corfforaethol

Mae hwn yn nodi gweledigaeth strategol, amcanion lles a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer cyflawni. Mae hyn yn cael ei bennu'n aml dros gyfnod o 5 mlynedd gan weinyddiaeth Gabinet y Cyngor ac mae hefyd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cynllun Gwasanaeth

Yn nodi beth y mae pob gwasanaeth yn mynd i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn i gyflawni amcanion a blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Bydd hyn yn cynnwys camau gweithredu a mesurau perfformiad sy'n gyson ag amcanion y Cynllun Corfforaethol.

Cynlluniau Gweithredu Tîm

Yn nodi camau gweithredu gan y tîm unigol a fydd yn cefnogi'r cynlluniau gwasanaeth. Gall hyn gynnwys camau gweithredu penodol a mesurau perfformiad sy'n cyd-fynd ag amcanion y cynllun gwasanaeth.

Cynlluniau Gweithredu Unigol

Yn nodi amcanion a chamau gweithredu aelodau unigol o staff sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni cynlluniau gwasanaeth ac amcanion y cynllun tîm.

Er mwyn i'r Cyngor ddatblygu cynlluniau effeithiol sy'n rhoi dealltwriaeth glir o'r cyfeiriad a'r aliniad i gynllun Corfforaethol y Cyngor, mae angen ystyried:

1. **Angen** - Beth yw angen ein cwsmeriaid, ein cymunedau, ein gofynion deddfwriaethol a rheoliadol (5 Ffordd o Weithio: Tymor Hir/Cydweithio/Atal/Integreiddio/Cymryd Rhan);
2. **Amcan(ion)** – Sut y caiff ein hamcan(ion) eu cefnogi a'u heffaith ar yr anghenion a nodir (CAMPUS). Sut y byddwn yn mesur y llwyddiant a'r effaith ar gyflawni ein hamcan(ion)?
3. **Adnoddau** - A oes gennym yr adnoddau e.e. staffio (capasiti / gallu), Cyllid (refeniw, cyfalaf, grantiau) i gyflawni ein hamcanion. Sut mae hynny'n effeithio ar ein targedau?
4. **Risgiau** – Beth yw'r risgiau a allai ein hatal rhag cyflawni ein hamcanion? A yw'r rhain wedi'u cofnodi yn y system rheoli risg?
5. **Cynlluniau** – Pa gamau gweithredu sydd eu hangen i gyflawni ein hamcanion? Pwy fydd yn arwain y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu? Faint o amser fydd y cam(au) yn ei gymryd i gyflawni?
6. **Adolygiad** – Mae hyn yn gysylltiedig â rheoli perfformiad (gweler isod) a monitro perfformiad bob chwarter.
7. **Diwygio** – Adolygu'r cynlluniau gweithredu (Diwygio / ychwanegu camau gweithredu newydd) er mwyn cyflawni'r amcanion.


Cynllunio ariannol

Mae Gwasanaeth Cyllid y Cyngor yn gyfrifol am gefnogi meysydd gwasanaeth a rheolwyr ac am ddiogelu adnoddau'r Cyngor. Bob blwyddyn, y cyngor sy'n pennu'r gyllideb a'r Cynllun Arbedion Tymor Canolig. Fel rhan o'r cylch cynllunio gwasanaeth mae'n hanfodol eich bod yn:

- Dod i adnabod eich Partner Busnes Cyllid ac i siarad â nhw am gyngor ariannol a chyn dechrau unrhyw brosiect.
- Hunain a deall eich cyllideb a'ch ffactorau sy'n costio drwy gwblhau eich diweddariadau misol a siarad â'ch partneriaid busnes.
- Peidiwch ag ymrwymo oni bai fod gennych y gwariant o fewn eich cyllideb.
- Byddwch yn ymwybodol o'ch risgiau a'u rheoli.
- Cydymffurfio â Rheolau Sefydlog Contractau, Rheoliadau Ariannol a Pholisi Caffael.

Beth yw rheoli perfformiad?

Mae cysylltiad annatod rhwng cynllunio a pherfformiad ac maent yn allweddol i alluogi'r Cyngor i wireddu ei weledigaeth. Wrth gyflawni amcanion y Cyngor (corfforaethol / gwasanaeth / tîm / unigolyn) mae'n bwysig ein bod yn gallu trosi'r rhain yn gamau gweithredu a mesurau diriaethol a all ddangos pa mor dda rydym yn llwyddo a'u heffaith ar y gwasanaethau, cwsmeriaid (mewnol/allanol), cymunedau a rhanddeiliaid eraill sy'n ymwneud â'r Cyngor. Ar gyfer ein perfformiad, rydym wedi mabwysiadu safon y diwydiant – Gwneud – Adolygu – Diwygio (gweler y diagram isod)



Mae'r dull hwn yn berthnasol i bob un o'r camau gweithredu a'r penderfyniadau a wneir ar bob lefel yn y Cyngor. Disgwylir i bob maes gwasanaeth gael cynllun gwasanaeth sy'n meddu ar amcanion a chamau gweithredu clir sy'n galluogi'r Cyngor i gyflawni ei gynllun corfforaethol (Amcanion Lles) yn ogystal â chyflawni gweithgareddau penodol sy'n cefnogi anghenion ei gwsmeriaid / defnyddwyr, yn ei alluogi i gydymffurfio â deddfwriaeth a/neu reoleiddio ac yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ein hadnoddau a'n hasedau. Gall y rhain hefyd droi'n gynlluniau gweithredu tîm penodol (lle y bo'n gymwys) ac amcanion perfformiad unigol.

I gefnogi'r broses hon, mae'r Cyngor yn defnyddio'r Hyb Gwybodaeth Rheoli (MI) i fonitro ac adrodd ar gynnydd yn erbyn cyflawni'r cynlluniau gwasanaeth a'u mesurau perfformiad a'u risgiau cysylltiedig.

Ar gyfer monitro perfformiad unigol, mae angen i swyddogion osod amcanion a champau gweithredu sy'n cyd-fynd â'r cynllun gwasanaeth a'r amcanion/campau gweithredu ar gyfer cynllun y tîm. Mae'r cynlluniau perfformiad hyn yn helpu i gynorthwyo timau i gyflawni eu hamcanion a dylent alluogi swyddogion i nodi cyfleoedd ar gyfer datblygu a/neu wella eu perfformiad. Ar gyfer staff corfforaethol, mae'r Cyngor yn defnyddio'r system iTrent i osod a monitro perfformiad. Ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn rhai corfforaethol a ddarperir gan y Cyngor e.e. cartrefi gofal, staff rheng flaen ac ysgolion ac ati, dylai cynlluniau perfformiad penodol a threfniadau monitro y cytunwyd arnynt gan y rheolwr perthnasol fod ar waith. Tîm Adnoddau Dynol y Cyngor sy'n gyfrifol am ddatblygiad personol cyflogeion Cyngor Dinas Casnewydd.

Cynllunio & Llywodraethu perfformiad gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau

Mae cyfansoddiad y Cyngor yn nodi sut y rheolir cynllunio, perfformiad a risg yng Nghyngor Dinas Casnewydd. Dylai'r prosesau hyn fod yn hysbys ar bob lefel o'r sefydliad ac mae'n bwysig cael cynlluniau sy'n cyd-fynd o'r Cynllun Lles i gynlluniau unigol (ac i'r gwrthwyneb). Mae'r tabl isod yn amlinellu'r rolau a'r chyfrifoldebau sydd gan bob lefel, partneriaid mewnol/allanol a rheoleiddwyr wrth fonitro, adrodd a rhoi sicrwydd ynghylch cyflawni ein hamcanion a'n camau gweithredu. Amlinellir rolau a chyfrifoldebau sy'n ymwneud â rheoli risg yn y polisi rheoli risg.

Swydd	Cyfrifoldeb Cynllunio	Cyfrifoldeb Perfformiad
Y Cyngor	<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyo'r strategaethau a'r cynlluniau a gynhwysir yn y Fframwaith Polisi e.e. Cynllun Lles BGC (1 o 4 corff statudol) a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Cymeradwyo cyllideb a chyfrifon terfynol y Cyngor. 	Ddim yn berthnasol
Cabinet	<ul style="list-style-type: none"> Cytuno ar strategaethau a pholisïau gweithredol o fewn fframwaith polisi'r Cyngor e.e. Cynllun Corfforaethol. 	<ul style="list-style-type: none"> Cytuno ar fframweithiau a gweithdrefnau rheoli perfformiad. Monitro'n rheolaidd (bob 6 mis) berfformiad a risg gyffredinol y Cyngor a'i gynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Monitro ac unrhyw gamau a gymerir mewn perthynas â gwybodaeth reoli neu wybodaeth am berfformiad. Ystyried sylwadau ac argymhellion pwyllgorau craffu perfformiad y Cyngor.
Aelod Cabinet	<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyo unrhyw ddogfennau polisi neu bolisi sy'n ymwneud â'u portffolio gan gynnwys cynlluniau gwasanaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> Monitro perfformiad (bob chwarter) yn erbyn cynlluniau gwasanaeth gan gynnwys cyllid, mesurau perfformiad a risgiau o fewn eu portffolio a phenderfynu ar unrhyw gamau sy'n codi. Herio perfformiad gwael a hyrwyddo perfformiad da o fewn eu portffolio. Goruchwyllo'r cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion gan yr archwilwyr mewnol a'r rheoleiddwyr allanol.
Pwyllgor Rheoli Trosolwg a Chraffu	<ul style="list-style-type: none"> Ymgynghori ar strategaethau, cynlluniau a fframweithiau corfforaethol gan gynnwys y Cynllun Corfforaethol, yr Adroddiad Blyneddol Corfforaethol a'r Adroddiad Blyneddol ar gyfer Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol. 	<ul style="list-style-type: none"> I ddwyn gweithrediaeth (Cabinet) y Cyngor i gyfrif. Monitro perfformiad a llwyddiant gwasanaethau a chanlyniadau polisïau. Cydlynu'r rhaglen ar gyfer y Pwyllgorau Craffu ar Berfformiad a gweithredu'r rhaglen waith.
Pwyllgor Craffu Perfformiad - Partneriaethau	<ul style="list-style-type: none"> Cyfrannu tuag at Gynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus drwy gyfrwng craffu cyn penderfynu. 	<ul style="list-style-type: none"> Dal y BGC yn atebol am eu perfformiad. Monitro perfformiad y BGC yn erbyn cynlluniau a blaenoriaethau partneriaethau fel rhan o'r cylch perfformiad;

Swydd	Cyfrifoldeb Cynllunio	Cyfrifoldeb Perfformiad
		<ul style="list-style-type: none"> • Monitro'r broses o weithredu unrhyw argymhellion a chamau a wneir i'r BGC.
Pwyllgor Craffu Perfformiad – Pobl / Lle a Chorfforaethol	<ul style="list-style-type: none"> • Ddim yn berthnasol 	<ul style="list-style-type: none"> • Dwyn y weithrediaeth i gyfrif am ei pherfformiad gan gynnwys cyllid. • Monitro perfformiad cynlluniau gwasanaeth a'u cyfraniad at y Cynllun Corfforaethol cyffredinol (bob 6 mis). Herio perfformiad gwael a hyrwyddo perfformiad da. • Yn cael adroddiadau rheoleiddio allanol i'r Gyfarwyddiaeth Pobl a sicrwydd o ran cyflawni yn erbyn argymhellion a chynigion ar gyfer gwella.
Pwyllgor Archwilio.	<ul style="list-style-type: none"> • Adolygu a chymeradwyo'r rhaglen flynyddol ar gyfer archwiliadau mewnol, blaenoriaethau archwilio ac effeithiolrwydd y rhaglen er mwyn rhoi sicrwydd digonol o ran prif risgiau busnes y Cyngor. 	<ul style="list-style-type: none"> • Llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu corfforaethol. • Derbyn a chymeradwyo Datganiad Cyfrifon Blynyddol y Cyngor yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio.
Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	<ul style="list-style-type: none"> • Paratoi, ymgynghori a chyflwyno'r Cynllun Lles Lleol. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro ac adrodd ar gyflawni'r Cynllun Lles Lleol gan ddwyn partneriaid i gyfrif ar berfformiad gwael a hyrwyddo perfformiad da.
Uwch Dîm Arwain	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli cyllidebau'r gwasanaeth o fewn y terfynau cyffredinol a gytunir ac yn amodol ar y strategaethau, yr amcanion polisi a'r targedau a gytunwyd gan y Cyngor. • Sicrhau bod gan ardaloedd gwasanaeth strategaethau, polisiâu a chynlluniau sy'n ategu'r gwaith cyffredinol o gyflawni Cynllun Corfforaethol y Cyngor. 	<ul style="list-style-type: none"> • Dwyn Penaethiaid Gwasanaeth i gyfrif am berfformiad, herio perfformiad gwael, hyrwyddo perfformiad da a phenderfynu ar gamau(au) priodol.
Prif Weithredwr	<ul style="list-style-type: none"> • Pennu'r fframwaith ar gyfer Cynlluniau Gwasanaeth gan bob Pennaeth Gwasanaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> • Yn dwyn yr holl Brif Swyddogion i gyfrif am eu penderfyniadau a pherfformiad eu gwasanaethau. • Penderfynu ar ddulliau monitro a gweithgareddau mewn perthynas â rheoli perfformiad staff y Cyngor.
Cyfarwyddwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu gwasanaethau gofal a chymorth sy'n cyflawni swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor ac yn bodloni amcanion lles y Cyngor. • Penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â chynlluniau gweithredol a chyllid 	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith ar draws y gwasanaethau cymdeithasol, a chyflwyno adroddiadau ar lefel gorfforaethol ac i aelodau ar berfformiad yr awdurdod o ran y rhain. • Cyfarwyddwr Pobl - adrodd yn flynyddol ar y perfformiad, y risgiau a'r cynlluniau ar gyfer gwella swyddogaethau Gwasanaethau Cymdeithasol.
Tîm Rheoli Corfforaethol	<ul style="list-style-type: none"> • Cyflawni'r fframwaith ar gyfer cynlluniau gwasanaeth yn unol â chyfarwyddyd y Prif Weithredwr. • Goruchwylio'r gwaith o gyflawni cynlluniau prosiect. 	<ul style="list-style-type: none"> • Monitro perfformiad y gwasanaeth a risg bob chwarter ac ymdrin ag unrhyw faterion a/neu weithredoedd arwyddocaol. • Cytuno ar dargedau perfformiad ar gyfer y Cyngor er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'r Cyngor yn gwella'n barhaus. • Monitro perfformiad rhaglenni a phrosiectau corfforaethol a mynd i'r afael

Swydd	Cyfrifoldeb Cynllunio	Cyfrifoldeb Perfformiad
Penaethiaid Gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> Llywio a goruchwylio'r gwaith o bennu amcanion a chamau gweithredu'r cynllun gwasanaeth ar gyfer eu maes gwasanaeth. Cytuno ar fesurau perfformiad sy'n helpu i gyflawni amcanion eu cynllun gwasanaeth. Cytuno ar risgiau sy'n atal y broses o gyflawni'r cynllun gwasanaeth a'r amcanion corfforaethol a'u goruchwylio. Goruchwylio'r gwaith o Reoli Prosiectau 	<p>ag unrhyw faterion a/neu weithredoedd arwyddocaol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Atebol am berfformiad a chyflawni amcanion/camau gweithredu a gynlluniwyd yn eu maes gwasanaeth. Gyfrifol am gadw'r Cyfarwyddwyr ac Aelodau perthnasol y Cabinet yn gyfoes am faterion perfformiad. Rhannu straeon llwyddiant a rhannu arfer gorau ag eraill. Cyfrifol am fynd i'r afael â pherfformiad gwael a lliniaru canlyniadau negyddol. Nodi ac uwchgyfeirio risgiau a fydd yn effeithio ar y broses o gyflawni'r cynllun gwasanaeth a/neu amcanion y cynllun corfforaethol. Gyfrifol am weithredu a diweddarau cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion a chynigion y rheoleiddwyr ar gyfer gwella.
Tîm Rheoli Gwasanaeth/Rheolwyr gwasanaeth	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi penaethiaid gwasanaethau wrth bennu amcanion a chamau gweithredu'r cynllun gwasanaeth. Nodi mesurau a thargedau perfformiad sy'n gyson â'r broses o gyflawni'r cynllun gwasanaeth a'r amcanion corfforaethol. Gosod cynlluniau tîm a chamau gweithredu wedi'u halinio ag amcanion y cynllun gwasanaeth. Sicrhau bod adnoddau (Ariannol / Dynol) yn gallu cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol ac amcanion y cynllun gwasanaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd am y cynnydd o ran cyflawni amcanion / camau'r cynllun gwasanaeth. I godi meysydd o berfformiad gwael a gweithredu camau lliniaru i wella perfformiad. Rhannu llwyddiannau a meysydd o berfformiad da mewn timau. Nodi ac uwchgyfeirio risgiau a fydd yn effeithio ar y broses o gyflawni'r cynllun gwasanaeth a/neu amcanion y cynllun corfforaethol. Sicrhau bod cyllidebau a chyllid yn gallu cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cynlluniau gwasanaeth ac amcanion y Cynllun Corfforaethol.
Pob cyflogai	<ul style="list-style-type: none"> Gosod amcanion yn eu cynllun perfformiad personol sy'n cefnogi cyflawni amcanion yn y Gwasanaeth / Tîm. Deall a chyfrannu at yr amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn y Cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau gwasanaeth. 	<ul style="list-style-type: none"> Monitro perfformiad yn rheolaidd yn erbyn amcanion a chamau gweithredu a bennir yn eu cynllun perfformiad personol eu hunain. Cefnogi a rhoi gwybodaeth i reolwyr gwasanaethau / timau am y camau gweithredu a bennwyd yn y cynlluniau gwasanaeth / tîm. Lle y bo'n berthnasol, sicrhau bod data perfformiad yn cael ei gynhyrchu a'i gyflwyno'n brydlon. Cefnogi'r gwaith o gyflawni camau gweithredu a nodwyd drwy adolygiadau mewnol / allanol o berfformiad yn y gwasanaeth.
Partner Busnes Perfformiad ac Ymchwil	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi'r Cabinet / Uwch arweinwyr wrth ddatblygu'r cynllun Corfforaethol a'r cynlluniau gwasanaeth. Cefnogi'r broses o ddatblygu polisïau a gweithdrefnau angenrheidiol sy'n cefnogi'r Fframwaith Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Risg. 	<ul style="list-style-type: none"> Cefnogi a pharatoi diweddariad chwarterol y gwasanaeth o'u perfformiad. Cefnogi a drafftio adolygiad blynyddol y Cyngor o berfformiad yn erbyn cyflawni'r Cynllun Corfforaethol. Cefnogi a monitro perfformiad yn erbyn adolygiadau rheoleiddio allanol.

Swydd	Cyfrifoldeb Cynllunio	Cyfrifoldeb Perfformiad
	<ul style="list-style-type: none"> Lle bo'n berthnasol, cefnogi adolygiadau rheoleiddio allanol e.e. Swyddfa Archwilio Cymru, AGC a/neu Estyn. Rhoi cyngor, arweiniad a lle bo'n berthnasol cynllunio cymorth, risg perfformiad. Cefnogi Hyb Gwybodaeth Casnewydd wrth gynnal a gweinyddu'r system rheoli perfformiad. 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrhau bod y mecanweithiau yn effeithiol o ran darparu mesurau perfformiad cywir ac amserol.
Archwilio Mewnol	Ddim yn berthnasol	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi sicrwydd ynghylch effeithiolrwydd y polisi a'r prosesau perfformiad a rheoli risg. Dilyn argymhellion a chamau rheoli.
Swyddfa Archwilio Cymru / Rheoleiddwyr Allanol	<ul style="list-style-type: none"> Rhoi sicrwydd ynghylch sut y mae'r Cyngor yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus ar ddarparu gwasanaethau a Chynllun Corfforaethol y Cyngor. Rhoi sicrwydd bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau statudol. 	<ul style="list-style-type: none"> Sicrwydd ynghylch adroddiadau ariannol a'r defnydd o adnoddau Archwiliadau perfformiad yn seiliedig ar risg o ran darparu gwasanaethau a chydymffurfiaeth â deddfwriaeth / rheoliadau. Adolygiadau rheoleiddio o swyddogaethau a gwasanaethau statudol i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth a rheoliadau. Dilynol ar argymhellion / cynigion ar gyfer gwella.

Data Perfformiad / Ansawdd Data

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn defnyddio ac yn cyrchu llawer o systemau gwahanol i gynllunio, monitro ac adrodd ar gyflenwi gwasanaethau a gweithgareddau. I gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol a defnyddio'n effeithiol y 5 egwyddor ffordd o weithio (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol) ar bob lefel o'r Cyngor mae'n hanfodol bod yr holl wybodaeth hon yn seiliedig ar ddata dibynadwy ac amserol o ansawdd uchel. Gall peidio â chael gafael ar y wybodaeth a'r data hyn arwain at benderfyniadau nad ydynt yn gadarn, sy'n effeithio ar enw da'r Cyngor ac a all arwain at gamau disgyblu a/neu ariannol pellach.

Mae gan holl weithwyr cyflogedig y Cyngor ddyletswydd i sicrhau bod y wybodaeth a gesglir, a gaiff ei storio, ei hadrodd a'i rhannu yn bodloni gofynion Deddf Diogelu data 2018. Mae'n rhaid i'r un data a ddefnyddir i gynhyrchu mesurau/dangosyddion perfformiad, cyllidebau ariannol ac adroddiadau, camau gweithredu cynlluniau gwasanaeth a risgiau fodloni'r gofynion hyn hefyd.

Er mwyn sicrhau y mabwysiedir dull gweithredu corfforaethol, mae'r Cyngor wedi datblygu **Protocol Ansawdd Data** sy'n amlinellu'r gofynion o ran cynnal data o ansawdd uchel a chynhyrchu gwybodaeth gywir ac amserol am berfformiad. Dylai pob cyflogai sy'n gyfrifol am weinyddu, holi ac adrodd o'r systemau hyn fod yn ymwybodol o'r gofynion a nodir yn y Protocol.

Mae angen i bob gwasanaeth hefyd sicrhau bod prosesau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith i gofnodi, dilysu a gwirio'r data cyn ei gyflwyno i ganolfan gwybodaeth reoli'r cyngor a/neu sefydliadau allanol megis Data Cymru (CLILC), Llywodraeth Cymru ac eraill.

Dolenni i Bolisiau Corfforaethol Eraill

Fframwaith Integredig Cynllunio, Perfformiad a Rheoli Risg

Polisi Rheoli Risg

Polisiau / Gweithdrefnau Cyllid

Polisiau a Gweithdrefnau AD